

## **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

**Cofnodion** o Gyfarfod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, brynhawn Mercher, 17 Ionawr 2018 am 5pm.

### **YN BRESENNOL**

Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol M.Tegg – Maer

### **Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol**

L.M.Adams	H.Fychan	M.Norris
S.Belzak	E.George	W.Owen
D.R.Bevan	D.Grehan	D.Owen-Jones
H.Boggis	M.Griffiths	S.Powderhill
J.Bonetto	J.Harries	M.J.Powell
S.A.Bradwick	G.Holmes	S.M.Powell
J.Brencher	L.Hooper	S.Rees
A.Calvert	G.E.Hopkins	A.Roberts
G.Caple	P.Howe	J.Rosser
A.Chapman	G.W.Hughes	R.W.Smith
A.Crimmings	J.James	E.S.Stephens
G.R.Davies	P.Jarman	W.Treeby
J.R.Davies	K.L.Jones	L.G.Walker
A.Davies-Jones	L.Jones	M.O.Weaver
L.De Vet	W.Jones	M.Webber
M.Diamond	R.Lewis	E.Webster
J.Elliott	W.Lewis	G.D.G.Williams
S.Evans	C.Leyshon	J.Williams
M.Fidler Jones	D.Macey	T.Williams
M.Forey	A.Morgan	C.J.Willis
A.S.Fox	S.Morgans	R.Yeo

### **Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C.Lee – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen  
Gio Isingrini – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i  
Blant

Mr C.B.Jones – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

Mr C.Hanagan - Cyfarwyddwr - Y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus

Mr R.Evans – Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol

Ms K. May - Pennaeth y Gwasanaethau Llywodraethol

### **84 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb i law gan y Cynghorwyr A.G.Cox, J.L.Cullwick, G.Jones, K.Morgan, S.Pickering, S.Rees-Owen, G.Stacey, G.Thomas, R.K.Turner, a D.H.Williams.

## 2 DATGAN BUDDIANNAU

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cynghorwyr, cafodd y datganiadau o fuddiannau personol eu gwneud mewn perthynas ag **Agendwm 7 – Cronfa Deddf Eglwys Cymru – Adroddiad Blynyddol 2016/17** gan y Cynghorwyr:-

- D.R.Bevan – “Mae dyletswydd arna i i gymeradwyo/gwrthod ceisiadau am gyllid o Gronfa Deddf Eglwys Cymru yn rhinwedd fy swydd yn Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai”
- G.R.Davies – “Rwy'n Ysgrifennydd un o'r Eglwys sydd wedi cael cyllid yn y gorffennol, ond ddim y llynedd”.
- J.Elliott – “Rwy'n aelod o un o'r sefydliadau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad”.
- A.S.Fox – “Rwy'n Ymddiriedolwr ac yn Drysorydd un o'r grwpiau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad”.
- J.Harries – “Rwy'n aelod un o'r sefydliadau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad”.
- L.Jones – “Rwy wedi cynorthwyo ynglŷn â chodi arian tuag at un o'r sefydliadau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad”.
- W.Lewis – “Rwy'n Ysgrifennydd Cyngor Eglwys Blwyf, Eglwys San Steffan”.
- A.Morgan – “Rwy'n Gadeirydd un o'r Sefydliadau Cymuned sydd wedi elwa o'r grant”.
- M.Norris – “Rwy newydd ddod yn Aelod o Fwrdd Ymddiriedolaeth Pentref y Cambrian”
- J.Rosser – “Rwy'n rhan o un o'r grwpiau sydd wedi derbyn arian”.
- E.S.Stephens – “Rwy wedi bod yn gysylltiedig ag Eglwys San Steffan o ran eu cynorthwyo i godi arian”.
- W.Treeby – “Rwy'n rhan o un o'r Sefydliadau Cymuned sydd wedi derbyn arian”.
- L.G.Walker – “Rwy'n rhan o un o'r sefydliadau sydd wedi derbyn swm o arian”.
- M.Webber – “Mae rhan o Bwyllgor Clwb Pêl-droed Rhydfelen yn Grŵp Cymuned rwy'n ei arwain”.

## 86 CYHOEDDIADAU

- (1) Cyhoeddodd y Cynghorydd G.R.Davies, a hynny yn dilyn llwyddiant mab y Cynghorydd D.Macey, Lloyd ar y rhaglen X Factor; bydd chwaer y Cynghorydd E.Stephens, Rachel Stephens, yn ymddangos ar y gyfres newydd o'r enw `All Together Now` sydd i gael ei chyflwyno gan Geri Haliwell a Rob Beckitt. Bydd y rhaglen gyntaf i'w darlledu ar 27 Ionawr, 2018 ac yn para chwe wythnos.

Dywedodd y Cynghorydd E.Stephens bod ei chwaer, yn debyg i Lloyd Macey, wedi bod trwy Wasanaeth Cerdd RhCT, ac felly mae'n rhywbeth y dylai'r Cyngor fuddsoddi ynddo gan y byddai cynifer o berfformwyr talentog yn cael

eu colli pe bai toriadau i'r celfyddydau yn parhau. Dywedodd hi i Rachel ennill cystadleuaeth theatr gerdd yn yr Eisteddfod ac mae hi wedi chwarae sawl rhan mewn dramâu amatur lleol, yr un ddiweddaraf yw Sister Act yn y Colisëwm yn Aberdâr yn ogystal â chanu mewn nifer o achlysuron seremoni cyn-feiri a'r Maer presennol.

Fe gadarnhaodd y Cyngorydd Stephens y byddai Rachel yn ymddangos yn un o'r rhaglenni sydd i'w darlledu yn yr wythnosau nesaf, gan ddymuno'n dda iddi yn y gystadleuaeth.

- (2) Roedd y Cyngorydd R.Lewis eisiau llongyfarch Buffy Williams, Pentre Rhondda, a oedd yn rhan o raglen Nadolig y BBC o'r enw `Mary, Mel and Sue's Big Christmas Thank You` a gafodd ei darlledu yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas ar Noswyl Nadolig. Cafodd Buffy Williams The Big Thank You am ei gwaith roedd hi'n ei wneud yn y gymuned ar ôl i rai busnesau yn yr ardal gau.

Roedd y Cyngorydd R.Lewis yn dymuno diolch i garfan RhCT Gyda'n Gilydd a roddodd gymorth i Buffy i gymryd un o adeiladau gwag y Cyngor ar gyfer agor y ganolfan i'r gymuned. Roedd y rhaglen yn dangos yr achlysur cinio Nadolig i'r trigolion yng Nghanolfan Pentre yn ogystal ag ambell i syrpréis arall.

Dywedodd y Maer y byddai hi'n estyn gwahoddiad i Buffy Williams i'r Parlwr.

- (3) Dymunodd y Maer roi gair o ddiolch i'r Cyngorydd M.Fidler Jones, G.Hughes a R.Lewis am redeg yn rasys Nos Galan. Diolchodd hi hefyd i'r rheiny a gefnogodd yr achlysur a'i noddi.
- (4) Soniodd y Cyngorydd W.Jones am gyflawniad Wayne Warren "a Rhondda boy" wrth iddo gyrraedd rownd go-gynderfynol Pencampwriaeth Dartiau'r Byd. Nododd y Maer y byddai Mr.Warren yn cael gwahoddiad i fynd i'r Parlwr.

## 87 COFNODION

**PENDERFYNWYD** – Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor, a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2017, yn rhai cywir.

## 88 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

- (a) **Cwestiwn gan Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol R.Smith i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor (Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol M. Webber)**

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ddatganiad ynglŷn â'r ddiweddaraf parthed sefyllfa'r Swyddfa Bost ym Mhontypridd?"

### **Ymateb gan Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M.Webber**

“Diolch am y cwestiwn hwnnw. Mae'r Swyddfa Bost yn wasanaeth allweddol ar gyfer ein cymunedau, ac roeddwn i'n drist i glywed am y trafferthion a gafodd darparwr y gwasanaeth – Dennis Pounder Travel, dros gyfnod y Nadolig.

Dyma gadarnhau, yn dilyn ei chau, i mi ysgrifennu at y Swyddfa Bost i nodi pwysigrwydd y gwasanaeth i ganol tref Pontypridd ynghyd â chais am iddyn nhw chwilio am bob ffordd i sicrhau trefniant parhaol er mwyn gofalu bod y gwasanaeth ar gael unwaith eto cyn gynted ag y bo modd. Yn dilyn hyn, rwy wedi cael ar ddeall bod y Swyddfa Bost yn gweithio'n galed i ailddedrau'r gwasanaeth, a bod y Cyngor yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau”.

### **Cwestiwn Ategol gan Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol R.W.Smith**

“Diolch i chi, Dirprwy Arweinydd, am eich gwaith ynglŷn â'r mater yma. Rwy'n cytuno'n llwyr bod yr amgylchiadau anffodus yma yn ergyd drom i drigolion Pontypridd. Serch hynny, mae newyddion da i'w cael hefyd, y Fadam Faer, ac hoffwn i achub ar y cyfle yma i longyfarch y Cyngor ar y datblygiadau diweddar ar safle hen Ganolfan Dyffryn Taf/Taff Vale a gafodd eu cyhoeddi'r wythnos yma”.

### **Ymateb gan Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M.Webber**

“Diolch. Rydych chi'n iawn i ddweud y bu hyn yn ergyd drom i drigolion lleol, ond fe alla i'ch sicrhau chi bod y Cyngor yn ymrwymo i gyhoeddi newyddion da ar gyfer y dref. Fel y dywedwch, mae newyddion da i'w cael, a dim ond yr wythnos diwethaf, fe gafodd y dywarchen gyntaf ei chodi ar safle ein datblygiad blaengar, Dyffryn Taf, wrth i'r gwaith gychwyn; ac mae cynlluniau cyffrous i siop M&S sydd â'r potential i roi gwelliant sylweddol i fywiogrwydd y dref”.

### **(b) Cwestiwn gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J.Bonetto i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes (y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J.Rosser)**

“Sut mae'r Cyngor yn bwriadu bwrw ymlaen â'i gynlluniau ar gyfer Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif?”

### **Ymateb gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J.Rosser**

“Diolch i chi, y Cynghorydd Bonetto. Mae i'r rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif ran allweddol o'n hymrwymiad i wella cyfleusterau addysg ar draws y Fwrdeistref Sirol, ac mae'n rhaglen Band A yn cynrychioli'r buddsoddiad mwyaf yn y categori yma o blith unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru, o £160M.

Mae'r Cyngor yma'n cydnabod bod rhaid i'r cynnydd da barhau, ac mae'n dda gen i gadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo ein cais drafft ar gyfer Band B y rhaglen”.

### **Cwestiwn Ategol gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol J.Bonetto**

“Diolch am eich ateb. Rhaid i fi ddweud ei bod hi'n hynod galonogol bod yr Weinyddiaeth yn rhoi cymaint o bwyslais ar ein pobl ifainc a'u haddysg. Oes modd ichi roi gwybodaeth am pryd gallwn ni ddisgwyl rhagor o wybodaeth am y cynigion?”

### **Ymateb gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol J.Rosser**

“Bydd rhaglen Band B, gwerth £160M, yn dechrau o fis Ebrill 2019, a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn y cyfarfod nesaf, a fydd yn rhoi amlinelliad manwl ynglŷn â ble bydd y buddsoddiad yn mynd ar draws Rhondda Cynon Taf, a phryd”.

### **(c) Cwestiwn gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol S.A.Bradwick i Arweinydd y Cyngor (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).**

“Sut mae'r Cyngor yn cynllunio a pharatoi ar gyfer ysgwyddo'i gyfrifoldebau Cynllunio ar gyfer Argyfyngau yn ystod misoedd y gaeaf?”

### **Ymateb gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol A.Morgan**

“A chithau'n Aelod profiadol, byddwch chi'n gwybod bod cynllun Cynnal a Chadw adeg y Gaeaf gyda ni, sydd i'w gael ar wefan y Cyngor. Mae'n hanfodol bod cynlluniau clir yn eu lle i gadw'r Fwrdeistref Sirol i symud pan fydd tywydd garw i'w ddisgwyl. Mae'r prif bwyslais ar ein gwaith cynllunio yn rhoi sylw i'n ffyrdd mynyddig a'r priffyrdd trwy'r Sir. Byddwn ni'n bwrw iddi o ran y ffyrdd bach pan fydd hynny'n bosibl a lle bo'r adnoddau gyda ni i wneud hynny. Mae nifer o gerbydau 4x4 gyda ni er mwyn sicrhau na fyddwn ni'n cael ein dal allan, a bod gwasanaethau megis Pryd-ar-glud yn parhau.

Yn ystod y cyfnod diwethaf o dywydd garw, fe deithiodd staff dros 3,000 o filltiroedd, sy'n cyfateb i deithio o Bontypridd i John O'Groats ac yn ôl, dwywaith.

Hoffwn i ddiolch i'n holl staff a weithiodd o fore gwyn tan nos i gadw ein ffyrdd ar agor ac yn ddiogel.

Hoffwn i annog pob Cyngorydd i ddod i seminerau, pan fyddwn ni'n eu cynnal nhw, i gael dealltwriaeth well ynglŷn â sut awn ni ati i baratoi ar gyfer tywydd garw.

### **Cwestiwn ategol gan y Cyngorydd S.Bradwick**

"Diolch i'r Arweinydd, rhaid i fi ddweud fy mod i'n hollol gytûn â'ch canmoliaeth, a hoffen ni ategu'ch diolch i'r holl staff a weithiodd yn ddiplino i gadw ein ffyrdd yn ddiogel ac yn glir yn ystod y tywydd garw. Hoffwn i ddiolch i'r holl staff yn yr adrannau i gyd".

### **Ymateb gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol A.Morgan**

"Rwy wedi diolch i'r staff a gwirfoddolwyr ac yn enwedig y rheiny a weithiodd pan gawson ni'r eira ar drothwy cyfnod y Nadolig. Rhaid inni gael y neges drosodd i'r cyhoedd, gan nad yw pawb yn gwybod nad yw halen yn gweithio os ydy'r tymheredd yn cwmpo o dan -0, felly yn aml iawn, bydd rhaid inni gau'r ffordd. Neithiwr, daeth cerbyd oddi ar ffordd mynydd y Maerdy a oedd yn beth anffodus iawn, achos i'r ffordd gael ei thrin deirgwaith. Rydyn ni'n rhoi cerbyd ag aradr ar bob ffordd fynyddig ac maen nhw'n mynd yn ôl ac ymlaen".

### **(ch) Cwestiwn gan Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol P.Jarman i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor (Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol M. Webber)**

"A wnewch chi ddatganiad ar eich blaenoriaethau portffolio?"

### **Ymateb gan Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol M.Webber**

"Diben fy mlaenoriaethau portffolio i yw sicrhau bod, o ran y meysydd hynny rwy'n gyfrifol amdany'n nhw , y Cyngor yn gwireddu'i ddyheadau fel sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Corfforaethol".

### **Cwestiwn Ategol gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol P.Jarman**

"Yn dilyn ymgynghori helaeth a chyflwyno achos busnes i'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Awst 2015, arwyddodd y Cyngor yma gytundeb cydweithredu â Chynghorau Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr, Powys, Caerdydd, a Bro Morgannwg mewn perthynas â Gwasanaeth y Crwner. Rhan o'r cytundeb oedd cadw Ystafell Lys y Crwner yn Rock Grounds, Aberdâr ynghyd ag un yng Nghaerdydd. Fis Rhagfyr, fe ges i ar ddeall bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i gau'r Ystafell Lys yn Aberdâr gyda golwg ar ei symud i Bontypridd. Pam nad yw'r cytundeb gwreiddiol wedi cael ei barchu? Pwy wnaeth y penderfyniad? Oes ymgynghori wedi bod gyda'r cynghorau eraill a pham does dim ymgynghori cyhoeddus wedi bod ar gynnig sensitif fel hwn?"

### **Ymateb gan Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol M.Webber**

"Does dim penderfyniad wedi'i wneud, mae cynnig i adleoli Gwasanaeth y Crwner ar gyfer Canol y De, sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd. Yn rhan o'r cynnig, mae ymgynghori'n digwydd â'r cyrff cyhoeddus priodol sy'n cynnwys ystyriaeth o'r cyfleusterau rhanbarthol ehangach sy'n cael eu defnyddio gan y

Crwner ar hyn o bryd. Mae'r cynnig yn nodi'r bwriad i ddefnyddio eiddo presennol awdurdod lleol. Mae'r cynnig dan ystyriaeth yn sgîl Heddlu'r De yn ail-werthuso'i gyfleusterau'i hun, sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd yng Nghaerdydd. Bydd Mr Chris Jones yn hapus i roi unrhyw wybodaeth ychwanegol i chi gan ei fod yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth y Crwner".

**(e) Cwestiwn Gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G.Caple i Arweinydd y Cyngor (y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A.Morgan).**

"Sut bydd y Cyngor yn bwrw ymlaen â'r Buddsoddiad Cyfalaf o £300M a gafodd ei gyhoeddi gan y Cyngor yn ddiweddar?"

**Ymateb gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A.Morgan**

"Fe roddais i ddatganiad cyn y Nadolig, a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn ei gyfarfod nesaf ynglŷn â dyrannu'r buddsoddiad ar draws ystod o flaenoriaethau megis addysg, trafnidiaeth, a gofal cymdeithasol. Bydd y buddsoddiad sydd yn yr arfaeth yn ychwanegol at ein Rhaglen Gyfalaf arferol a bydd iddo'r gallu i adeiladu ar y rhaglen BuddsoddiadRhCT yn nhermau parhau â thrawsnewid ein cymunedau trwy ganiatáu gweithredu ar ystod o'n hymrwymiaadau craidd".

**Cwestiwn ategol gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G.Caple**

"Diolch i chi, Arweinydd. Mae hi i'w chroesawu bod yr Weinyddiaeth yn barod i fuddsoddi yn ein cymunedau ar draws hyd a lled y Fwrdeistref Sirol, ac rwy o'r farn y bydd hyn, o bosib, yn cynrychioli'r buddsoddiad mwyaf yn hanes RhCT, ac rwy'n eich llongyfarch chi, Arweinydd, am yrru hyn yn ei flaen. Mae siopau ac eiddo gwag yn broblem sy'n effeithio ar sawl tref y cymoedd, gyda'r Porth yn eu plith. Oes modd rhoi ystyriaeth i ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael at ddibenion y mater yma?"

**Ymateb gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A.Morgan**

"Oes, byddwn i'n gobeithio y byddai'r cyllid yma'n cyfrannu at fynd i'r afael â'r broblem yma a gwella canol ein trefi. Hon fyddai un o'r rhaglenni cyfalaf mwyaf yn ei hanes dros 20 mlynedd. Fe ges i gyfarfod â'r Gweinidog Cyllid ynglŷn â'r cynlluniau sydd i'w gyflwyno ac i edrych ar grantiau. Mae'r trafodaethau wedi bod yn gadarnhaol. Bydd eiddo gwag yng nghanol y trefi yn rhan o adroddiad y bydd y Cynghorydd Bevan a minnau ynglŷn ag e, ac mae'n rhan o'r cynllun sy'n cael ei baratoi. Bydd yr adroddiad yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Cabinet".

**ADRODDIADAU CYFARWYDDWR CYFADRAN Y GWASANAETHAU  
CORFFORAETHOL A RHENG FLAEN**

## **89 Adroddiad Blynyddol Cronfa Deddf Eglwys Cymru 2016/17**

Yn ei adroddiad, ceisiodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sêl bendith Cynghorwyr ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon ar gyfer Cronfa Deddf Eglwys Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, 2017; a **PHENDERFYNWYD** –

1. Cymeradwyo a nodi Datganiad o Gyfrifon Cronfa Deddf Eglwys Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17, fel y nodir yn Atodiad 1 yn yr adroddiad;
2. Cymeradwyo a nodi'r Llythyr o Gynrychiolaeth mewn perthynas â Chronfa Deddf Eglwys Cymru, fel; y nodir yn Atodiad 2 yn yr adroddiad.
3. Nodi cynnwys adroddiad yr Archwilydd Allanol, fel y nodir yn Atodiad 3 yn yr adroddiad.

## **90 Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor Lleol**

Yn unol â Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor fel sydd wedi'u pennu gan reoliadau a wnaed o dan Atodlen 1B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol, 1992 (fel y mewnosodir gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol, 2012) a chymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru dwy set o reoliadau (fel sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad) ar 26 Tachwedd, 2013, ceisiodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen gymeradwyaeth y Cynghorwyr i weithredu Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor erbyn 31 Ionawr, 2018.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** –

1. Nodi'r newidiadau i'r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 (“y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig”) gan y Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2018 (y “Rheoliadau Diwygio”) a ddaeth i rym ar 10 Ionawr 2018, yn dilyn cymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru (NAfW) yn y sesiwn llawn ar 9 Ionawr 2018;
2. Nodi canlyniad y broses ymgynghori a gynhaliodd y Cyngor ar y gostyngiadau lleol sy'n berthnasol i'r Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor ar gyfer 2018/19;
3. Gweithredu darpariaethau'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig ac unrhyw newidiadau sydd i'w gwneud i'r rheoliadau hynny oherwydd y Rheoliadau Diwygio fel Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor Lleol y Cyngor ar gyfer 2018/19 yn unol â'r gostyngiadau lleol y gall y Cyngor eu gweithredu fel sydd wedi'u nodi yn (4) isod;
4. Cadarnhau'r canlynol fel gostyngiadau lleol i'w gweithredu i Gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor Lleol y Cyngor fel sydd wedi'u nodi yn Rhan 5 o'r Rheoliadau gofynion Rhagnodedig:



<p><b>Rhannau yn ôl Disgresiwn y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig</b> <i>(Rhan 5 – Materion eraill mae rhaid eu cynnwys yng nghynllun awdurdod)</i></p>	<p><b>Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Isafswm Gofyniad)</b></p>	<p><b>Gostyngiad i'w weithredu sydd wedi'i argymhell</b></p>
<p>Y modd i gynyddu cyfnod gostyngiad estynedig safonol o 4 wythnos sy'n cael ei roi i ymgeiswyr lle maen nhw wedi derbyn gostyngiad Treth y Cyngor sydd i ddod i ben, gan eu bod nhw wedi peidio derbyn budd-daliadau cymwys o ganlyniad i ddychwelyd i'r gwaith, cynyddu'u horiau gwaith, neu dderbyn mwy o enillion.</p> <p><i>Rheoliad 32 (3) paragraff (33) o Atodlen 1 a Rheoliad 33 (3), paragraff (35) a (40) o Atodlen 6.</i></p>	<p>4 wythnos</p>	<p><u>Pensiynwyr:</u> Bydd cyfnod safonol o <b>4</b> wythnos sydd wedi'i nodi ym mharagraff (33) o Atodlen 1 yn gweithredu, a <u>Heb fod yn Bensiynwyr:</u> Bydd cyfnod safonol o <b>4</b> wythnos sydd wedi'i nodi ym mharagraff (35) a (40) o Atodlen 6 yn gweithredu</p>
<p>Modd i ôl-ddyddio cais am Ostyngiad Treth y Cyngor ar gyfer ceisiadau hwyr cyn y cyfnod safonol o 3 mis cyn i'r hawliad gael ei wneud.</p> <p><i>Rheoliad 34 (4) a paragraff (3) a (4) o Atodlen 13.</i></p>	<p>3 mis</p>	<p><u>Pensiynwyr:</u> Bydd cyfnod safonol o <b>3</b> mis sydd wedi'i nodi ym mharagraff (3) o Atodlen 13 yn gweithredu  <u>Heb fod yn Bensiynwyr:</u> Bydd cyfnod safonol o <b>3</b> mis sydd wedi'i nodi ym mharagraff (4) o Atodlen 13 yn gweithredu</p>
<p>Modd i ddiystyru mwy na'r incwm wythnos statudol o £10 sydd wedi'i dderbyn mewn perthynas â Phensiwn Anabledd Rhyfel a Phensiwn Rhyfel Gwraig Weddw (i'w ddiystyru wrth gyfrifo incwm y ceisydd);</p> <p><i>Rheoliad 34 (5), paragraffau 1(a) ac 1(b) Atodlen 4 a paragraffau 20(a) ac 20(b) o Atodlen 9</i></p>	<p>£10</p>	<p><u>Pensiynwyr:</u> Gwerth cyfan unrhyw bensiwn a nodwyd ym mharagraffau 1 (a) a (b), Atodlen 4 i'w ddiystyru.  <u>Heb fod yn Bensiynwyr:</u> Gwerth cyfan unrhyw bensiwn a nodwyd ym mharagraffau 20 (a) a (b), Atodlen 9 i'w ddiystyru.</p>

## **91 GOSTYNGIAD TRETH Y CYNGOR**

Yn ei adroddiad, rhoddodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen fanylion i'r Aelodau ynglŷn â'r polisi presennol ynghylch Gostyngiadau Treth y Cyngor ynghyd â chynnig i ddefnyddio'i bwerau yn ôl disgrisiwn er mwyn newid lefel y gostyngiad ar gyfer Treth y Cyngor mewn perthynas ag anheddau sydd i'w cyfrif fel eiddo gwag tymor hir.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**—

1. Cymeradwyo i barhau â dim gostyngiad Treth y Cyngor ar gyfer eiddo Dosbarth A a B;
2. Cymeradwyo lefel newydd o 0% o ostyngiad Treth y Cyngor ar gyfer eiddo Dosbarth C yn Rhondda Cynon Taf h.y. yr eiddo sydd wedi bod yn wag am dros chwe mis, gan weithredu ar 1 Ebrill, 2018;
3. Cytuno i adnoddau ychwanegol sy'n cael eu creu oherwydd y newid arfaethedig mewn polisi yn 2018/19 i gael ei neilltuo a'i ychwanegu at y cyllid sydd ar gael trwy Gynllun Grant Eiddo Gwag y Cyngor;
4. Bod awdurdod wedi'i ddirprwyo yn cael ei roi i Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen i weithredu'r newidiadau uchod fel sydd wedi'u pennu ym mharagraff 6 o'r adroddiad.

## **ADRODDIAD CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHOL**

### **92 NEWID I AELODAETH O BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU AR Y CYD BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CWM TAF**

Yn unol â'r penderfyniad a wnaed (cofnod 2 (2.2.)) yng Nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 17 Mai, 2017, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol iddo gael hysbysiad gan grŵp Plaid Cymru o newid yn ei aelodaeth o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y cyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf a **PHENDERFYNWYD** – nodi bod y Cynghorydd E.Stephens i gymryd lle'r Cynghorydd P.Jarman ar Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y cyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf.

### **93 RHYBUDD O GYNNIG**

Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau'r Cynghorwyr P.Jarman, G.Davies, J.Williams, L.Jones, K.Morgan, J.Davies, E.Webster, E.Stephens, S.Rees-Owen, M.Weaver, W.Jones, A.Chapman, S.Evans-Fear, A.Cox, D.Macey, H.Fychan, D.Grehan a J.Cullwick:-

“Bod y Cyngor yma'n gweithredu'r penderfyniad a wnaed gan y Cyngor Llawn ar 11 Ionawr 2017 ac yn ddarparu'r arian sydd wedi'i fwriadu ac yn cynyddu'r ddarpariaeth o ddiffibrilwyr mewn manau cyhoeddus i gefnogi Ymgyrch Calonau Cymru.

Nid yw'n dderbyniol, un flwyddyn ar ôl y penderfyniad hwnnw, er gwaethaf gwerth dyfeisiau o'r fath er mwyn achub bywydau, nid yw un diffibriliwr ychwanegol wedi ei ddarparu gan y Cyngor”.

Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** peidio â mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

#### **94 RHYBUDD O GYNNIG**

Trafod y Rhybudd o Gynnig isod sydd wedi'i gyflwyno yn enwau'r Cyngorwyr G.R.Davies, P.Jarman, A.Cox, W.Jones, K.Morgan, D.Macey, E.Webster, J.Williams, S.Evans-Fear, A.Chapman, S.Rees-Owen, M.Weaver, E.Stephens, L.Jones, J.Davies, J.Cullwick, H.Fychan a D.Grehan :-

“Er bod y Cyngor yma wedi cydnabod yn ddiweddar y dylai'r lôn ddynesu at Gwm Rhondda o'r De ar hyd yr A4119 fod yn Borth i Gwm Rhondda, nid yw statws o'r fath wedi cael ei roi i'r lôn ddynesu o'r Gogledd.

Mae'r cynnig hwn yn galw ar y Cyngor hefyd i fabwysiadu a chodi arwyddion ffordd ar y lôn ddynesu at Gwm Rhondda trwy Gwm Cynon. Os yw'r ddau gwm i elwa wrth gyflawni twf economaidd, creu swyddi a ffyniant, mae'n bwysig bod arwyddion cyfeiriadol amlwg yn cael eu gosod ar unwaith ar hyd lonydd dynesu'r priffyrdd o'r gogledd yn ogystal â'r A4119 o'r De.

Bydd y Cyngor hwn yn cymryd camau ar unwaith i ddarparu'r arwyddion y mae ganddo gyfrifoldeb drostynt er budd ehangach y rhai sy'n dymuno ymweld â Chwm Rhondda a Chwm Cynon a buddsoddi ynddynt ar hyd y lonydd dynesu gogleddol i'r ddau gwm”.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** – cyfeirio'r mater at sylw'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer ystyriaeth.

**M.TEGG**

**MAER**

**Daeth y cyfarfod i ben am 7:27pm.**

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y Cyngor